| | |
|---|---|
| Swydd | Rheolwr Prosiect Plant a Phobl Ifanc (CYP) (Cyfnod Mamolaeth),<br>Live Music Now Cymru |
| Graddfa Gyflog | £28,000 - £30,000 y.f. (£16,800 - £18,000 pro-rata 0.6 FTE) yn ddibynnol ar brofiad /gymhwysedd |
| Math o Swydd | Rhan amser: 3 diwrnod (22.5 awr) yr wythnos (0.6 FTE) |
| Dyddiad Dechrau | Cynted ag sy'n bosibl<br>*Cyfnod mamolaeth tymor penodol hyd at fis Mehefin 2024 (gyda phosibilrwydd o estyniad)* |
| Rhybudd o Restr Fer | Erbyn dydd Iau 15 Mehefin 2023 |
| Cyfweliadau | W/d 26 Mehefin 2023 - i'w gadarnhau<br>(yn bersonol fyddai orau ond gellir gwneud addasiadau os bydd angen) |
| Lleoliad | Swyddfa Live Music Now Cymru, Bae Caerdydd.<br><br>Bydd oriau gwaith yn cynnwys yr oriau craidd, 10am-3pm.<br>Trefnir oriau gwaith rheolaidd gyda Rheolwr Llinell (Cyfarwyddwr Cenedlaethol) cyn dechrau gweithio gan gytuno y bydd angen hyblygrwydd efallai ar gyfer digwyddiadau a drefnir yn ystod yr wythnos. |
| I Ymgeisio | Cofiwch uwchlwytho eich CV a llythyr eglurhaol i'r ddolen hon sef <https://www.surveymonkey.co.uk/r/PTS8PMJ> erbyn dydd Llun 12 Mehefin 2023. Dylai amlinellu sut rydych yn cyflawni'r meini prawf<br><br>Cofiwch gynnwys enwau a manylion cyswllt dau ganolwr sydd mewn sefyllfa i'ch disgrifio'n broffesiynol gan nodi'n fyr pa mor hir ac ym mha gymhwysedd y maen nhw wedi eich adnabod (ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn y cyfweliad). |
| Hysbysiad | Yn anffodus, ni allwn ddarparu adborth heblaw eich bod ar y rhestr fer. Byddwn yn anfon atoch i roi gwybod a ydych ar y rhestr fer ai peidio. |
| | Mae Live Music Now wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal. O'r herwydd rydyn ni'n weithredol yn annog ceisiadau oddi wrth bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol ac yn ein sefydliad gan gynnwys y rhai sy'n wyneb rhwystrau anabledd neu sydd wedi profi hiliaeth.<br><br>Bydd pob ymgeisydd Anabl sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael cyfweliad. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael y cyfle i drafod eu gofynion mynediad ar gyfer y cyfweliad.<br><br>Gwahoddir darpar ymgeiswyr i ffonio'r Rheolwr Llinell sef Cyfarwyddwr Live Music Now Cymru, Jen Abell, gydag unrhyw ymholiad am y swydd hon cyn anfon eu cais. Rhif ffôn 029 2048 8654.<br>Os byddai'n well gennych gyfathrebu drwy e-bost, angen cymorth i gwblhau eich cais ar-lein neu os hoffech chi gyflwyno eich ymatebion mewn fformat gwahanol, gallwch anfon e-bost at jobs@livemusicnow.org.uk neu ffonio 029 2048 8654. |

Mae Live Music Now yn elusen sydd wedi bod yn gweithio ac yn ymgyrchu ers 1977 i greu effaith cymdeithasol cynhwysol, mesuradwy drwy gerddoriaeth. Drwy harnesu pŵer cysylltiol cerddoriaeth a gwerthuso ei effaith rydyn ni'n datblygu ymarfer cerddorol ac yn newid sut rydyn ni'n deall ac yn cefnogi pobl sy'n cael eu tangynrychioli a rhai bregus yn ein cymdeithas. Mae ein gwaith yn gwella ansawdd bywyd, iechyd a llesiant ac yn hybu cydraddoldeb cyfle drwy gydnabod potensial creadigol pob unigolyn.

Yn greiddiol i'n damcaniaeth o newid yw'r ymrwymiad i gyflwyno effaith cymdeithasol drwy gerddoriaeth. Rydyn ni'n creu'r effaith cymdeithasol hwnnw drwy gerddorion. Ystyriwn y rhain, sef y rhai sy'n cael eu hystyried fel ein partneriaid mwyaf gwerthfawr a'n hasedau mwyaf, i geisio ymateb i'r angen cynyddol oddi wrth gymunedau sy'n wynebu gwaharddiad ac anfanteision cymdeithasol.

Cyflawnir hyn drwy dri ymrwymiad:

1. Cefnogi bywydau cerddorol y bobl sy'n profi anfanteision a gwaharddiad cymdeithasol.
2. Datblygu a chefnogi'r gweithlu o gerddorion proffesiynol i sicrhau safon o ymarfer, delio â thangynrychioli drwy greu llwybrau cynhwysol i yrfaoedd posibl a chyflawni'r deilliannau gorau i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.
3. Eirioli a rhoi tystiolaeth o fuddiannau trawsffurfio cerddoriaeth fyw ar ddysgu, datblygu, iechyd a llesiant.

Rydyn ni'n cyflogi a hyfforddi dros 300 o gerddorion proffesiynol i weithio gyda phobl hŷn (nifer yn byw gyda dementia), plant a phobl ifanc (CYP) sy'n wynebu rhwystrau sy'n anablu, blynyddoedd cynnar a gweithwyr allweddol sy'n cefnogi eraill.

Mae ein gwaith yn cyrraedd dros 85,000 o bobl, yn bersonol ac ar-lein, yn perfformio, yn cydweithio ar ac yn creu cerddoriaeth drwy sesiynau grŵp ac 1:1, preswylfeydd mewn lleoliadau gofal, ysgolion arbennig ac ysbytai a chyngherddau. Mae ein gwaith yn helpu cyfranogwyr i gyfathrebu a gwneud cysylltiadau cymdeithasol, datblygu sgiliau a chynyddu hyder a gwydnwch.

Mae ein rhaglenni wedi'u tanategu gan waith ymchwil a phartneriaethau traws-sector ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yn rhyngwladol. I gael mwy o wybodaeth, ymwelwch â'n gwefan [our website.]

Mae Live Music Now yn gweithredu ar draws y DU gyda changhennau yn Lloegr yn gweithredu dros y De Ddwyrain, De Orllewin ac ar draws y Gogledd a changhennau cenedlaethol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon gyda chwaer-gangen yn Yr Alban. Lleolir y swydd hon yn Live Music Now Cymru a bydd yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol a thimau Prosiect ac aelodau allweddol y tîm ar draws y DU.

Mae tîm o Gyfarwyddwyr Strategol yn arwain datblygiad gwaith y LMN ym meysydd Gofal Cymdeithasol Oedolion, Gofal Iechyd, Plant a Phobl Ifanc a Datblygiad Cerddorion sy'n cael ei gynnig drwy rwydwaith o ganghennau ar draws y DU. Cyfarwyddwr sy'n rheoli pob cangen ac mae'n adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr sydd yn ei dro yn adrodd yn ôl i'r Cadeirydd a'r Bwrdd o Ymddiriedolwyr.

Mae Live Music Now Cymru wedi bod yn gweithio yng Nghymru ers 1990. Mae wedi cynnal dros 10,000 o berfformiadau ers hynny gyda chyfartaledd yn awr o 500 sesiwn cerddorol yn flynyddol ym mhob un o'r 22 sir yng Nghymru. Mae'r tîm o staff yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cenedlaethol, un Uwch Reolwr Prosiect, un Rheolwr Prosiect (rôl sy'n cael ei hysbysebu) ac un Cydlynydd Prosiect. Mae'r swyddfa ym Mae Caerdydd.

Rheolwr Prosiect CYP (Cyfnod Mamolaeth), Live Music Now Cymru
Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Rheoli Prosiect

- Rheoli ystod o brosiectau cerddorol a phreswylfeydd ar draws Cymru wedi'u dirprwyo gan y Cyfarwyddwr Cangen a'u datblygu gan Reolwr Prosiect CYP yn amserol ac o fewn y gyllideb. Mae hyn yn cynnwys datblygu briff y prosiect, amserlenni, cysylltu gyda cherddorion a sefydliadau sy'n cynnal yr achlysur;
- Mewnbynnu'r digwyddiadau yn y gronfa ddata (Blackbaud's Raiser's Edge), llunio cytundebau, amserlenni a ffurflenni adborth ar gyfer cerddorion a lleoliadau ar sail bob prosiect yn unigol;
- Ymweliadau achlysurol â'r safleoedd i arsylwi ar weithgaredd y prosiect;
- Cynnal cyngherddau 'Dyddiau Llun Cerddorol' ar-lein ar gyfer ysgolion;
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cangen a'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol i sicrhau gweithredu gweithdrefnau monitro a gwerthuso priodol a bod adrodd yn ôl priodol i arianwyr, bwrdd ymddiriedolwyr Live Music Now ac ar gyfer cyfarfodydd misol gyda Rheolwr Llinell;
- Cysylltu gyda cherddorion, staff a phartneriaid priodol LMN i gofnodi gweithgareddau drwy amrywiol gyfryngau gan gynnwys; ffotograffiaeth, ffilm a chlywedol, gan sicrhau cydsyniad priodol;
- Paratoi adroddiadau yn ôl y galw ar gyfer defnydd mewnol ac allanol.

Codi Arian

Ymchwilio i gyfleoedd ariannu ac ysgrifennu ceisiadau yn unol ag amcanion strategol Live Music Now Cymru, i ddyddiad cau gyda chefnogaeth gan Gyfarwyddwr y Gangen.

- Rheoli perthnasoedd gydag arianwyr, paratoi adroddiadau diwedd prosiect gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Cangen.

Gweinyddu

- Paratoi adroddiad CYP Misol ar gyfer cyfarfodydd adolygu'r rheolwr a chyfarfodydd bwrdd chwarterol;
- Ceisio adborth/ gwerthusiad o leoliadau, oddi wrth gyfranogwyr a cherddorion a'u mewnbynnu i mewn i feddalwedd cronfa ddata/arolwg yn ôl y gofyn;
- Cadw manylion cyswllt diweddaraf cerddorion, partneriaid a lleoliadau yn y gronfa ddata;
- Llogi ystafelloedd ar gyfer hyfforddiant ayyb yn ôl y galw;
- Rheoli benthyciadau offer i gerddorion:: iPads, allweddellau, offer taro.

Cyllid

- Monitro gwariant prosiect a rheoli cyllideb prosiectau;
- Sicrhau bod y cynlluniwr cyllideb yn gyfredol yn fisol, amlygu risgiau a chyfleoedd i reolwr llinell.

Marchnata a Chyfathrebu

- Cydlynu gwybodaeth, delweddau a dyfyniadau prosiectau ar gyfer diweddariadau rheolaidd ar wefan a chyfryngau cymdeithasol LMN;
- Canfod a drafftio storiau newyddion;
- Creu hysbyslenni a deunyddiau marchnata gan ddefnyddio Canva a Flickr (cynigir hyfforddiant)

Rheoli Cerddorion

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr i gysylltu â cherddorion a chefnogi eu hymwneud a'u datblygiad gyda ni;
- Rheoli gwiriadau DBS ar gyfer cerddorion yn unol â pholisi Diogelu LMN;

Rheoli Llinell

- Dyrannu tasgau i'r Cydlynydd Prosiect; rheoli cerddorion ar eu liwt eu hunain a staff prosiect eraill

Tasgau Ychwanegol

- Dirprwyo weithiau dros Gyfarwyddwr y Gangen mewn digwyddiadau allanol
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y galw gan Gyfarwyddwr y Gangen ac sy'n berthnasol i'r swydd hon.

Telerau ac Amodau

Mae'r swydd dros gyfnod mamolaeth a bydd y cytundeb ar sail tymor penodol hyd at fis Mehefin.

Y cyflog fydd £28,000 - £30,000 pa (£16,800 - £18,000 pro-rata 0.6 FTE) yn ddibynnol ar brofiad/cymhwysedd, ar gyfer rhan amser 3 diwrnod yr wythnos (22.5 awr) a thelir yn fisol.

a) Mae'r penodiad yn ddibynnol ar:
   i) Rybudd terfynu'r cytundeb o bedair wythnos o'r ddwy ochr
   ii) Cyfnod prawf o dri mis

b) Mae'n bosibl y bydd yn rhaid gweithio gyda'r nos neu ar benwythnosau weithiau. Ni fydd tâl dros amser ond gellir trefnu amser rhydd yn lle.

c) Bydd y deilydd swydd wedi'i leoli/lleoli yn y swyddfa yng Nghaerdydd (er ei bod yn bosibl cael cyfle i weithio'n hyblyg ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus). Sicrheir offer TG.

d) Mae Live Music Now yn darparu cynllun pensiwn i bob aelod teilwng o'r staff ar ôl gorffen y cyfnod prawf yn llwyddiannus. Bydd yn cael ei dalu drwy'r gyflog. Mae'r sefydliad yn cyfrannu 3% o'ch cyflog i'r cynllun ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

## Cyfle Cyfartal

Mae Live Music Now wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac, o'r herwydd, rydym yn annog ceisiadau oddi wrth bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau sy'n anablu neu sydd wedi dioddef hiliaeth.

Bydd holl ymgeiswyr anabl sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael cyfweliad. Bydd ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cael y cyfle i drafod eu gofynion mynediad ar gyfer y cyfweliad.

Mae Live Music Now yn gyflogwr hyblyg ac un sy'n addasu; mae'n bosibl y gellir gweithio'n hyblyg ar ôl trafod gyda'r rheolwyr llinell.

Os hoffech drafod y rôl ymhellach, neu angen cymorth i gwblhau eich cais ar-lein neu os hoffech gyflwyno eich ymateb mewn fformat gwahanol, gallwch anfon e-bost at jobs@livemusicnow.org.uk neu ffonio 029 2048 8654.

Nodiadau

Yn aml, gellir newid y swydd o bryd i'w gilydd a bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r disgrifiad swydd yn ganllaw i'r gwaith y disgwylir i chi ei gyflawni ac mae'n cynrychioli ystod o gyfrifoldebau yn unol â graddfa'r swydd.

Rheolwr Prosiect CYP (Cyfnod Mamolaeth), Live Music Now Cymru: Manyleb Bersonol

| | Hanfodol | Dymunol | Aseswyd |
|---|---|---|---|
| Profiad | | | |
| Lleiafswm o dair blynedd o brofiad o fewn sefydliad celfyddydol, diwylliannol neu wirfoddol neu gyfatebol. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Sgiliau/medr | | | |
| Sgiliau Rheoli Prosiect, gan gynnwys cynllunio, gweithredu a monitro nifer o brosiectau'r un pryd. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Sgiliau trefnu wedi'u profi a'r gallu i reoli llwyth gwaith amrywiol ac yn gyflym. | X | | Cais, prawf a chyfweliad |
| Gwybodaeth waith o gysylltu gydag ysgolion i drefnu prosiectau | X | | Cais a Chyfweliad |
| Gwybodus iawn am ystod o becynnau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (MS Office, cronfa ddata Blackbaud Raiser's Edge) ac offer gwaith o bell gan gynnwys Dropbox a Zoom | X | | Cais a Chyfweliad |
| Sgiliau trefnu a rheoli amser gwych ynghyd ag agwedd dda ar y ffôn | X | | Cais a Chyfweliad |
| Sgiliau datrys problemau da | X | | Cais, prawf a chyfweliad |
| Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig ac ar lafar gwych gyda pharodrwydd rhwydd i gysylltu gydag ystod amrywiol o bartneriaid. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Gwybodaeth waith weladwy o'r amgylchedd ariannu (statudol, cronfeydd ymddiriedolaeth a sefydliadau a/neu eraill) gan gynnwys y gallu i ddatblygu cynigion yn unol â blaenoriaethau arianwyr | | X | Cais a Chyfweliad |
| Y gallu i gynrychioli'r sefydliad, cyfathrebu'n hyderus a dirprwyo ar ran y Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn ei absenoldeb/habsenoldeb. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Gwybodaeth waith am offer marchnata, gan gynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i gysylltu cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid. | | X | Cais, prawf a chyfweliad |
| Hyder wrth reoli, cyfddyddio ac adrodd yn ôl am gyllidebau. | X | | Cais, prawf a chyfweliad |
| Gwybodaeth ac ymagwedd | | | |
| Diddordeb yn natblygiad proffesiynol cerddorion. | | X | Cais a Chyfweliad |
| Diddordeb mewn addysg gerddorol ac ymarfer cerddorol cynhwysol. | | X | Cais a Chyfweliad |
| Angerdd dros ac ymrwymiad i botensial cerddoriaeth fel offeryn newid cymdeithasol yng Nghymru a'i effaith ar gyfranogwyr ynghyd â cherddorion . | X | | Cais a Chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Angerdd dros ac ymrwymiad i botensial cerddoriaeth fel offeryn newid cymdeithasol yng Nghymru a'i effaith ar gyfranogwyr ynghyd â cherddorion. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Ymrwymiad i amrywiaeth, cynhwysiad a chyfle cyfartal. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Dealltwriaeth o ac ymrwymiad i ddiogelu. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Ymrwymiad i arfer gwaith positif i hinsawdd gan ddeall yr effaith y gall penderfyniadau gwaith dyddiol ei wneud ar gyfiawnder hinsawdd yng Nghymru ac yn fyd-eang. | X | | Cais |
| Cyffredinol | | | |
| Egnïol, creadigol, mentrus ac ymrwymedig. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Cymhelliant uchel gyda symbyliad; gallu i osod blaenoriaethau, cyflawni targedau a gweithio'n unigol, wrth weithredu fel rhan o dîm ehangach o dan gyfarwyddyd. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Gallu i weithio fel rhan o dîm a datblygu perthnasoedd effeithiol ar ei ben ei hun. | X | | Cais a Chyfweliad |
| Trwydded yrru lân ac yn berchen car. | | X | Cais |
| Sgiliau iaith Gymraeg neu barodrwydd i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg. | | X | Cais a Chyfweliad |

Eich data a'ch preifatrwydd
Cedwir data pob ymgeisydd ar ein system yn ystod y broses gyfweld ar gyfer defnydd mewnol yn unig. Ar ôl yr amser hwn, dim ond data personol a geirda personol yr ymgeisydd llwyddiannus fydd yn cael eu cadw: bydd pob data ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu dinistrio neu eu dileu o'n cofnodion. Mae Live Music Now yn ymrwymo i beidio â gwerthu na rhoi unrhyw ddata unigolion i gwmnïau allanol. Gweler ein Polisi Data a Phreifatrwydd i gael mwy o fanylion.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith a newyddion Live Music Now, gallwch arwyddo i gael ein taflen newydd ar ein gwefan www.livemusicnow.org.uk